COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD LLUN, 24 GORFFENNAF 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | RM Granville | S J Griffiths |
| M L Hughes | G Walter | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies, M Jones, RL Penhale-Thomas a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

70. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd Heidi Bennett ddatgan buddiant personol yn eitem 6, Hunanasesiad Corfforaethol 2022-23, gan fod y sefydliad y mae'n gweithio iddo yn cael ei grybwyll mewn perthynas â gwaith atal a lles, a buddiant rhagfarnus yn eitem 8, fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

71. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, dyddiedig 31 Ionawr 2023, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

72. MONITRO CYLLIDEB 2023-24 – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 1

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid Perfformiad a Newid yr adroddiad, a diben hwn oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar berfformiad ariannol refeniw y Cyngor ar y 30ain o Fehefin 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

Ar draws y Cyngor

- Cywirdeb disgwyliedig y rhagamcanion ariannol a heriau lefelau chwyddiant digynsail.
- Y posibilrwydd o fodelu senarios ar gyfer casglu'r dreth gyngor a chyfraddau llog, a dulliau gwahanol a heriol o fynd i'r afael â'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb.

- Y posibilrwydd o rewi recriwtio, rheoli cyllidebau ar lefel y Gyfarwyddiaeth a’r Gorfforaeth a gwerthuso Gwasanaethau.
- Y gobaith o feincnodi yn erbyn profiad awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.
- Adolygu a defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, diweddariad ynghylch gofal preswyl annibynnol a’r cynnydd anghyffredin yng nghyfanswm a chymhlethdod y galw.
- Mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion, effaith achosion mwy cymhleth a phwysigrwydd gwasanaethau atal ac ailalluogi.

Cymunedau

- Diweddariad ynglŷn â’r ymgynghoriad ynghylch codi tâl ar ddeiliaid Bathodynnau Glas am barcio, a gweithredu'r terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr.
- Eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y bwriad i gau pob un o safleoedd y Ganolfan Ailgylchu Gymunedol am un diwrnod gwaith yr wythnos.
- Effaith y gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb ar feysydd eraill o'r Gwasanaeth.

Addysg a Chymorth i Deuluoedd

- Rheoli cyllidebau ysgolion sy'n rhagweld diffyg yn eu cyllidebau a'r rhai sy'n rhagweld gwarged ar hyn o bryd.
- Effaith ddisgwyliedig Ysgol newydd Heronsbridge ac adolygiad capasiti Ysgol Bryn Castell ar gyllideb y cymorth i ddysgwyr y tu allan i'r sir.
- Effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 ar y gallu i ddarparu lleoedd â thâl ar fysiau ysgol.
- Cymhwysedd ar gyfer cynnig hael yr Awdurdod o gludiant o’r cartref i’r ysgol, yr oedi cyn cyhoeddi’r Canllawiau gan Lywodraeth Cymru a her y cynnydd yng nghostau tanwydd a darparwyr.
- Y gorwariant ym maes arlwyo, anwadalrwydd y costau sy’n ymwneud â darparu Prydau Ysgol Gynradd i bawb, a pha gostau sy’n cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.

Y Prif Weithredwr

- A fyddai'r tanwariant presennol yn cael ei glustnodi ar gyfer tai a digartrefedd a'r cynnydd a ragwelir yn y galw.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Ystyried gweithio mewn partneriaeth â ffermwyr lleol i brynu ffrwythau a llysiau ar gyfer arlwyo mewn ysgolion, am gost is o bosibl.

a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

2. Graff yn dangos y cynnydd anghyffredin yn y galw am ofal cymdeithasol plant dros gyfnod o 3 blynedd.

3. Copïau o'r astudiaethau achos sy'n dangos y cymhlethdod a welir ym maes gofal cymdeithasol oedolion.

4. Er ei fod yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ddarparu rhagamcaniad realistig o incwm y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gofynnodd y Pwyllgor a ellid darparu model o'r achos gorau, yr achos gwaethaf a'r senario a ragwelir, er mwyn rhoi syniad o'r incwm tebygol a ddaw o gasglu'r dreth gyngor.

Cydnabu'r Pwyllgor mai un o'r cynigion mwyaf sylweddol ar gyfer lleihau'r gyllideb, oedd yn annhebygol o gael ei gyflawni'n llawn yng Nghyfarwyddiaeth y Cymunedau, oedd codi tâl ar Ddeiliaid Bathodynnau Glas am barcio (COM 2), oherwydd bod y tîm rheoli traffig ar hyn o bryd yn brysur yn cyflwyno'r cyfyngiad cyflymder cenedlaethol mewn ardaloedd adeiledig. Gofynnodd y Pwyllgor am i neges gael ei dosbarthu ymhlith yr Aelodau yn rhoi gwybod am yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ynghylch Cynllun y Bathodyn Glas.

73. <u>PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022-23</u>

Cyflwynodd Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg i'r Pwyllgor ar berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion y Cynllun Corfforaethol yn Chwarter 4 2022-23, sef y sefyllfa alldro derfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr Perfformiad Corfforaethol a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Mwy o her ar gyfer targedau a fethwyd yn sylweddol neu'n gyson, cynlluniau gweithredu a sicrhau adrodd yn gyson.
- Y posibilrwydd o raddio/codio lliw o fewn statws Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG).

<u>Absenoldeb Salwch.</u>

- Absenoldeb salwch cysylltiedig â straen, cymorth i les staff ac agwedd gyfannol tuag at bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith.
- Y duedd a'r ffactorau lliniarol o ran absenoldeb salwch a briodolir i anhwylderau cyhyrysgerbydol.

<u>Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</u>

- Y duedd a rheolaeth ar nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- Cost staff asiantaeth o gymharu â gweithwyr llawn amser cyfatebol.
- Diweddariad ar y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol, a nifer y rhai sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg neu gyflogaeth.
- Digonolrwydd lleoliadau a'r defnydd o leoliadau heb eu cofrestru.

Y Prif Weithredwr

- Y Strategaeth Ddigartrefedd a digonolrwydd y cynllunio ar gyfer y cynnydd yn y galw a ddisgwylid.
- Eiddo gwag, camau gorfodi a'r cymorth sydd ar gael i adfer eiddo i'w ddefnyddio eto.
- Y gobaith o ailagor y siop ailddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Gymunedol Maesteg.
- Methiant TGCh diweddar y Cyngor, cadernid cynlluniau seilwaith a pharhad busnes y Cyngor, diogelwch seiber a'r risg sylweddol a achosir gan ymosodiad seiber posibl.

Cymunedau

- Y broses ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol a rolau Cynghorau Cymuned.
- Nifer y busnesau newydd sydd wedi elwa o gael cymorth.

Addysg a Chymorth i Deuluoedd

- Cywirdeb y data a chymesuredd a thegwch yr adfachu ar gyfer absenoldeb salwch, yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn hytrach na niferoedd staff.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

5. Dadansoddiad, fesul Cyfarwyddiaeth, o'r eitemau a ganlyn:

a. cost staff asiantaeth; a'r
b. gwahaniaeth yn y gost rhwng gweithiwr asiantaeth ac Aelod o staff llawn amser cyfatebol.

6. Gyda golwg ar y cymorth a ddarperir i fusnesau newydd, dadansoddiad o'r nifer sydd wedi elwa o gyngor, grantiau cychwyn neu gymorth arall.

7. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith bod yr adfachiadau ar gyfer absenoldeb salwch mewn ysgolion yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn hytrach na niferoedd staff, a chlywyd bod Fforwm Cyllideb yr Ysgolion wedi gofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i'w bwysoli'n wahanol. Gofynnodd y Pwyllgor felly am y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddai Swyddogion Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Swyddogion Cyllid wedi trafod y mater a chyn y Fforwm nesaf.

Manylion dewisiadau oedd yn cael eu hystyried i alluogi'r siop ailddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Gymunedol Maesteg i ailagor.

74. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL 2022-23

Cyflwynodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ail adroddiad hunanasesu corfforaethol y Cyngor a'i ddyfarniadau, a gofyn am sylwadau ar yr adroddiad drafft.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y ffactorau sy’n cyfrannu at ddyfarniad cyffredinol yr Hunanasesiad o ‘Digonol’.
- Meddu ar ddiwylliant gonest, agored a heriol gyda Dangosyddion sy'n gyrru tuag at berfformiad gwell.
- Disgwyliad o fwy o fanylder a phwyslais ar gynaladwyedd a tharged Carbon Sero Net.
- Diweddariad ynglŷn â chyfraniad y Cyngor tuag at adfer eiddo gwag i gael ei ddefnyddio eto, nifer y tai gwag a’r disgwyliad y byddant yn cael eu defnyddio eto cyn gynted â phosibl.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

Adroddiad diweddaru, yn manylu ar ganlyniad partneriaeth y Cyngor gyda Chymoedd i’r Arfordir a chyfraniad o £500,000 tuag at adfer 35 eiddo gwag hirdymor i’w defnyddio eto.

75. CYNIGION AR GYFER Y TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD YN DILYN Y NEWID I UN BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) AR GYFER CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd y Swyddog Craffu'r adroddiad, a'i ddiben oedd diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â’r trefniadau craffu ar y cyd, arfaethedig, a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (BGC), yn dilyn trosglwyddo i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf Morgannwg a gofyn am enwebu pum Aelod ac un dirprwy Aelod o’r Pwyllgor, yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgor, cyn belled ag y bo’n ymarferol, i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg (JOSC).

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn enwebu’r Aelodau a ganlyn i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg:

- Y Cynghorydd Amanda Williams (enwebiad Grŵp Aelodau Annibynnol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr);
- Y Cynghorydd Alex Williams (enwebiad Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd); a’r
- Cynghorydd Freya Bletsoe (Dirprwy Aelod a enwebwyd o Grŵp Aelodau Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fynychu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan na fydd un o'r pum Aelod ar gael);

a

Chytunodd y Pwyllgor i ohirio enwebiadau’r tri Aelod sy’n weddill o’r Grŵp Llafur tan ei gyfarfod ar 4 Medi 2023.

76. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu’r Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fod yn bresennol. Gofynnodd i’r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio’r meini prawf dethol ym

mharagraff 3.6 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn 2022-23 yn Atodiad B, a'r rheiny yn y cyfarfod blaenorol 2023-24 yn Atodiad C. Gofynnodd hefyd i'r Pwyllgor nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn dilyn eu hystyried yn y cylch diweddar o gyfarfodydd SOSC.

Bu'r Aelodau'n trafod y methiant TGCh diweddar a gofynnwyd am i'r adroddiad ynghylch Diogelwch Seiber gael ei amserlennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 4 Medi 2023, a bod Cynlluniau Parhad Busnes TGCh i gael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid dirprwyo'r eitem ar y Gwersi a Ddysgwyd wrth Ailddatblygu Neuadd y Dref Maesteg i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3 ei hystyried.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 3.6, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr eitemau uchod, yn nodi'r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion yn Atodiadau B ac C ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

77. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:51